

Gwaith angau

“Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed, oherwydd yr wyt ti gyda mi.” (adn. 4)

Beth am ddarllen Salm 23:1–6 ac yna myfyrio

Prun ai a ydym yn Gristnogion ai peidio, mae rhywbeth o’n mewn sydd yn ceisio cuddio oddi wrth realiti angau. Mae llawer o Gristnogion wedi dweud wrthyf, “Nid wyf yn ofni marwolaeth, ond rwyf yn poeni am y ffordd y byddaf yn gorfod marw. A fyddaf mewn poen? A fydd marwolaeth yn hir? A fyddaf yn faich ar y rhai sydd yn fy ngharu?” Mae’r cwestiynau yma yn rhai naturiol, ac ni ddylid eu hanwybyddu. Beth bynnag fydd amgylchiadau marwolaeth, rhaid i ni beidio anghofio y bydd Crist gyda ni i’r diwedd. Ond yr hyn sydd raid i ni ei gofio uwchlaw popeth yw nad oes gan farwolaeth ond un gwaith – ein tywys i mewn i bresenoldeb ein Tad nefol, ac i roi i ni gartref parhaus yng nghwmni’r rhai sydd wedi eu prynu.

Mae gennyf gyfaill o bregethwr sydd yn dweud iddo, pan oedd yn blentyn, fynd ar goll mewn dinas fawr. Cyn gynted ag y sylweddolodd ei fod ar goll, fe ddechreuodd ei ddagrau lifo cyn i blismon caredig ddod ato a chymryd ei law a’i arwain i swyddfa’r heddlu. Yno, fe fu raid iddo aros am ychydig oriau cyn i’w dad ddod i’w nôl. Pan ddaeth un o’r heddwision i’w arwain yn ôl at ei dad, ni wyddai i ble yr oedd yn mynd, ac roedd y dagrau yn llifio unwaith eto. Ond, mewn ystafell ar ben draw coridor tywyll, fe welodd ei dad ac fe sychodd ei ddagrau. Gafaelodd ynddo, gan ryfeddu at yr ofn a brofodd ynghynt.

Ni fydd yn wahanol iawn i hyn ar adeg ein marwolaeth ni. Bu i Iesu sôn am ‘dŷ fy Nhad’ (Ioan 14:2). Gyda’n golwg ar dŷ ein Tad, gadewch i ni weithio tra pery gwaith y dydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Cor. 5:1–10; 1 Ioan 3: 1–3; 1 Cor. 13:12

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Paul yn disgrifio hyn?
2. Beth, yn ôl Ioan, yw’r hyn yr ydym yn ei wybod?

Gweddi

O Dad, mae’n gysur mawr i wybod mai gwaith angau yw fy arwain atat ti. Tawela fy ofnau, fy ofnau ynglŷn â natur fy marwolaeth, a gad i mi feddiannu’r ffaith na fydd i ti byth fy ngadael yn amddifad. Yn enw Iesu Grist. Amen.